



PROES AR GYFER YMLADDWR TÂN SY'N TROSGLWYDDO 2019

Mae swyddi gwag wedi codi o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer cyfleoedd trosglwyddo i Ymladdwyr Tân llawn Amser allanol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio. Croesawn felly geisiadau gan grwpiau a dangynrychiolir megis **menywod, pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a phobl lesbiad, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a'r rhai â rhywedd amhenodol.**

Gwahoddir ceisiadau **Ymladdwyr Tân ac Achub Cymwys** a gyflogir ar hyn o bryd gan Wasanaeth Tân ac Achub yn y DU.

Bydd angen i Reolwyr Criw ac uwch sy'n dymuno cael eu hystyried fod yn ymwybodol y byddant yn trosglwyddo ar lefel Ymladdwr Tân yn unig.

Nid yw'r broses hon yn briodol ar gyfer:

- Gwasanaethau Tân ac Achub y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gwasanaethau Tân ac Achub Meysydd Awyr
- Gwasanaethau Tân ac Achub y tu allan i'r DU

Meini prawf cymhwysedd

- Ymladdwr tân ac achub cyfredol Llawn amser
- Gallu nofio a hyder sylfaenol mewn dŵr fydd yn eich galluogi i weithio'n ddiogel mewn sefyllfaoedd achub o'r dŵr
- Bod â thrwydded yrru gyfredol

Sut i ymgeisio

Drwy gwblhau'r ffurflen gais sydd ynghlwm, a'i dychwelyd i : Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw Dydd Mercher yr 22^{ain} o Fai 2019. Cynhelir asesiadau a chyfweliadau yn ystod yr wythnos yn cychwyn y 24^{ain} o Fehefin 2019.

Y Broses Ddethol

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus sy'n cyrraedd y rhestr fer yn mynychu diwrnod Asesu Gallu ymarferol a fydd hefyd yn cynnwys cyfweliad ffurfiol.

Yn dilyn y diwrnod Asesu Gallu a chyfweliad, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael archwiliad meddygol (gan gynnwys prawf cyffuriau ac alcohol), a byddant yn destun gwiriad

boddhaol gan y cyflogwr presennol Gwasanaeth Tân ac Achub a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chrosawn gyfathrebiadau yn y naill iaith neu'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.